Y Comisiwn Etholiadol

Adolygiadau o ddosbarthiadau pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio

Mae'r canllawiau hyn yn darparu dull fesul cam i gynnal adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol. Mae'n adeiladu ar y canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol, ac mae wedi elwa ar adborth gan awdurdodau lleol ar eu profiadau o gynnal eu hadolygiadau blaenorol. Mae hefyd yn cynnwys dysgu o brofiad y Comisiwn o weinyddu'r broses apeliadau dros y pum mlynedd diwethaf.

1 Amseru adolygiadau gorfodol

1.1 Cyflwynodd Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 newid i amseriad adolygiadau gorfodol o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio Senedd y DU.

1.2 Rhaid i adolygiadau gorfodol gael eu cychwyn a'u cwblhau o fewn y cyfnod o 16 mis sy'n dechrau ar 1 Hydref bob pumed flwyddyn ar ôl 1 Hydref 2013.

1.3 'Adolygiad' yw'r holl gamau a nodir yn Atodlen A1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983). Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys y camau hyn yn nes ymlaen yn y ddogfen hon .Rhaid i'r broses adolygu, o gyhoeddi hysbysiad yr adolygiad hyd nes cyhoeddi'r dogfennau ar y diwedd, ddigwydd o fewn y cyfnod penodedig.

1.4 Nid yw hyd y broses adolygu wedi'i ragnodi, ar yr amod y gellir gwneud yr holl gamau sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth oddi mewn iddo. Fodd bynnag, dylai'r amser a ganiateir ar gyfer ymgynghori fod yn ddigonol i alluogi unigolion a grwpiau sydd â diddordeb i ddarllen a deall y cynigion, casglu sylwadau ac ymateb gydag unrhyw drefniadau eraill y gallent ddymuno eu cyflwyno. Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno rhoi sylw i unrhyw ganllawiau'r cyngor ar ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal yr adolygiad.

1.5 Bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu pryd i gynnal yr adolygiad o fewn y cyfnod 16 mis a bennir. Yn ymarferol, gofynnir yn aml i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu pryd y dylai'r adolygiad ddigwydd. Wrth ddod i benderfyniad ar amseru, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried pa ddyletswyddau a phrosesau statudol eraill y byddant

hwy a'u staff yn eu cynnal yn ystod y cyfnod hwnnw, a sut y bydd yr adolygiad yn cyd-fynd â'r rhain.

1.6 Yn ogystal, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried y canlynol:

- **Y canfas**
  Gan mai'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol yng Nghymru a Lloegr yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (ERO) hefyd, bydd unrhyw gyfnod canfas yn gyfnod prysur i gynnal adolygiad ynddo. Bydd angen rhoi ystyriaeth i ofynion adnoddau os yw'r broses adolygu i gael ei dechrau ar neu'n fuan ar ôl dechrau canfas gan y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y gweithgaredd canfas a'r adolygiad.

  Yn yr Alban, gan fod swyddfa'r Swyddog Canlyniadau ar wahân i un y Swyddog Cofrestru Etholiadol, mae'n bosibl y bydd cynnal y canfas yn cael llai o effaith ar gynnal yr adolygiad.

- **Cyhoeddi'r gofrestr**
  Mae angen cydbwyso'r llwyth gwaith ychwanegol posibl sy'n deillio o gynnal yr adolygiad ar yr un pryd â chynnal canfas yn erbyn y manteision o gwblhau adolygiad mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig. Golyga cwblhau'r adolygiad mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig y gall unrhyw newidiadau gael eu hadlewyrchu ynddi, ac na fydd angen gwneud unrhyw newidiadau dilynol i strwythur y gofrestr sydd eisoes wedi'i chyhoeddi, a thrwy hynny osgoi'r angen posibl i gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig bellach.

- **Etholiadau yn ystod cyfnod yr adolygiad**
  Yn ystod cyfnod yr adolygiad, bydd polau wedi'u trefnu a gellid gweld polau heb eu trefnu. Ym mhob achos, bydd angen rhoi ystyriaeth i sut y byddai'r gwaith ar yr adolygiad yn rhyngweithio ag unrhyw baratoadau etholiad/ refferendwm, gan gynnwys pryd y byddai angen cwblhau'r gwaith er mwyn osgoi effaith ar brosesau etholiad/refferendwm.
  .

- **Amserlennu cymeradwyo'r cynigion**
  Mae'n bwysig cynnwys yn yr amserlen y dyddiad mwyaf tebygol ar gyfer cyfarfod y cyngor/pwyllgor lle byddai'r cynigion adolygiad manwl yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo yn ffurfiol. Dylai'r swyddogion adolygu weithio'n agos â'r swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau y gall dyddiad y cyfarfod a'r terfynau amser cysylltiedig gael eu cynnwys yn yr amserlen adolygu.

- **Newidiadau i ffiniau etholiadol**
  Efallai hefyd yr adolygir ffiniau etholiadol lleol nifer o awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod o 16 mis. Os yw hyn yn wir, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sut y bydd yr adolygiad ffiniau etholiadol yn cyd-fynd â'r adolygiad dosbarth/man pleidleisio ac a fyddai'n bosibl ac yn ddymunol alinio'r ddau.

Pan fo'r adolygiad dosbarth/man pleidleisio yn cael ei gynnal cyn i'r ffiniau etholiadol newydd ddod i rym yn gyfan gwbl, bydd angen iddo fod yn seiliedig ar y ffiniau etholiadol cyfredol, ond dylai hefyd gymryd i ystyriaeth unrhyw ffiniau newydd nad ydynt eto mewn grym. Er mwyn osgoi gorfod adolygu'r dosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio eto unwaith y bydd y ffiniau newydd mewn grym yn gyfan gwbl, gallai unrhyw rannau o ardaloedd etholiadol presennol a fydd yn cael eu rhannu pan ddaw'r ffiniau newydd i rym gael eu gwneud yn ddosbarthiadau pleidleisio ar wahân fel rhan o'r adolygiad.

Hefyd, hyd nes y bo'r ffiniau newydd mewn grym yn gyfan gwbl, bydd angen adeiladu'r gofrestr mewn ffordd sy'n gallu adlewyrchu'r ffiniau cyfredol a'r ffiniau newydd. Unwaith eto, gellir cyflawni hyn drwy wneud unrhyw rannau o ardaloedd etholiadol presennol a fydd yn cael eu rhannu pan ddaw'r ffiniau newydd i rym yn ddosbarthiadau pleidleisio ar wahân.

Am yr un rhesymau, lle bo adolygiad o un set o ffiniau etholiadol yn golygu nad yw'r ffiniau ar gyfer gwahanol etholiadau bellach yn gydffiniol, gallai'r ardaloedd hynny nad ydynt bellach yn gydffiniol hefyd gael eu gwneud yn ddosbarthiadau pleidleisio ar wahân.

2 Rolau a chyfrifoldebau a diffiniad o dermau

Rolau a chyfrifoldebau

Yr awdurdod lleol

2.1 Mae'r cyfrifoldeb statudol am adolygu dosbarthiadau a mannau pleidleisio Senedd y DU yn gorwedd gyda phob awdurdod lleol perthnasol ym Mhrydain Fawr am gymaint o unrhyw etholaeth ag sydd wedi ei lleoli yn ei ardal. Yn Lloegr, yr awdurdod lleol perthnasol yw cyngor dosbarth ardal neu fwrdeistref yn Llundain, yn yr Alban, yr awdurdod lleol, ac, yng Nghymru, y cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

2.2 Yn dibynnu ar strwythur yr awdurdod lleol, mae'n bosibl nad y cyngor llawn fydd yn gwneud y penderfyniadau ar unrhyw newidiadau i ddosbarthiadau pleidleisio neu fannau pleidleisio. Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol wedi dirprwyo'r swyddogaeth honno, ac os felly mae'r penderfyniad ar ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio yn dod yn gyfrifoldeb i bwyllgor neu is-bwyllgor. Bydd hyn yn cael ei nodi yng nghyfansoddiad y cyngor.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

2.3 Pan fo awdurdod lleol yn gwneud unrhyw newidiadau i'r dosbarthiadau pleidleisio o fewn ei ardal, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddiwygio'r gofrestr etholwyr yn unol â hynny - naill ai ar hysbysiad o addasiad neu drwy gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig. Mae'r newidiadau i'r gofrestr yn dod i rym ar y

dyddiad mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi hysbysiad ar wahân yn nodi bod y newidiadau wedi cael eu gwneud, a dylai hyn gael ei wneud i gyd-fynd â chyhoeddi'r hysbysiad o addasiad/ cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

2.4 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud sylwadau yn ystod unrhyw adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio Senedd y DU ar y gorsafoedd pleidleisio presennol a'r gorsafoedd pleidleisio a fyddai'n debygol o gael eu defnyddio petai unrhyw gynnig newydd ar gyfer mannau pleidleisio yn cael ei dderbyn.

2.5 Mae rheolau'r etholiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu faint o orsafoedd pleidleisio sydd eu hangen ar gyfer pob man pleidleisio ac mae'n rhaid iddynt ddyrannu etholwyr i'r gorsafoedd pleidleisio yn y modd y maent yn meddwl sydd fwyaf cyfleus.

Y Comisiwn Etholiadol

2.6 Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi unrhyw rôl i'r Comisiwn yn y broses adolygu, mae'n darparu ar gyfer rôl ar ôl diwedd yr adolygiad.

2.7 Unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi cyhoeddi canlyniadau ei adolygiad, gall partïon â diddordeb penodol (gweler paragraff **7.2** isod) wneud sylwadau i'r Comisiwn i ailystyried unrhyw ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio. Gallwn roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod wneud unrhyw newidiadau i'r mannau pleidleisio yr ydym yn meddwl sy'n angenrheidiol ac, os nad yw'r newidiadau yn cael eu gwneud o fewn dau fis, gallwn wneud y newidiadau ein hunain.

Diffiniad o dermau

Etholaethau Seneddol y DU

2.8 Mae'r Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 yn nodi:

'There shall for the purpose of parliamentary elections be the county and borough constituencies (or in Scotland the county and burgh constituencies), each returning a single member, which are described in Orders in Council made under this Act. […] In this Act and, except where the context otherwise requires, in any Act passed after the Representation of the People Act 1948, "constituency" means an area having separate representation in the House of Commons.'

2.9 Ni all ffiniau etholaethau Seneddol y DU gael eu newid gan yr adolygiad.

Dosbarth pleidleisio

2.10 Mae dosbarth pleidleisio yn ardal ddaearyddol a grëwyd trwy isrannu etholaeth Seneddol y DU at ddibenion etholiad Seneddol y DU.

2.11 Yn Lloegr, mae pob plwyf i fod yn ddosbarth pleidleisio ar wahân, ac yng Nghymru, dylai pob cymuned fod yn ddosbarth pleidleisio ar wahân, oni bai bod amgylchiadau arbennig. Mae hyn yn golygu na chaiff plwyf neu gymuned

fod mewn dosbarth pleidleisio sydd â rhan o naill ai blwyf neu gymuned wahanol oddi mewn iddo, neu unrhyw ran heb fod yn blwyf o ardal yr awdurdod lleol oddi mewn iddo, oni bai bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol. Gallai'r amgylchiadau arbennig hynny godi os, er enghraifft, nad oes gan y plwyf/ gymuned ond nifer fach o etholwyr ac nad yw'n ymarferol i'r plwyf/ cymuned fod yn ddosbarth pleidleisio ar ei ben ei hun.

2.12 Yn yr Alban, rhaid i bob ward etholiadol gael ei rhannu'n ddau neu fwy o ddosbarthiadau pleidleisio oni bai fod amgylchiadau arbennig. O ystyried maint y wardiau yn yr Alban, mae'n anodd rhagweld yn ymarferol beth fyddai'r amgylchiadau arbennig hynny.

2.13 Pan nad yw plwyf neu gymuned yn ddosbarth pleidleisio ar wahân neu nad yw ward etholiadol yr Alban wedi cael ei rhannu'n ddau neu fwy o ddosbarthiadau pleidleisio, dylai'r amgylchiadau arbennig a'r argymhelliad yn deillio o'r rhain gael eu nodi'n glir yn y ddogfen adolygu i'r cyngor neu bwyllgor perthnasol eu hystyried.

Man pleidleisio

2.14 Man pleidleisio yw adeilad neu ardal lle bydd gorsafoedd pleidleisio yn cael eu dewis gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Rhaid i fan pleidleisio mewn dosbarth pleidleisio gael ei ddynodi, fel bod gorsafoedd pleidleisio o fewn cyrraedd hwylus i'r holl etholwyr ar draws y dosbarth pleidleisio.

2.15 Rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau yn dynodi'r dosbarth pleidleisio cyfan fel y man pleidleisio. Fodd bynnag, mae Adran 18B(4)(e) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi bod 'rhaid i'r man pleidleisio fod yn ddigon bach i ddangos i etholwyr mewn gwahanol rannau o'r ardal sut y gallant gyrraedd yr orsaf bleidleisio'. Felly, rydym yn ystyried y dylai mannau pleidleisio gael eu diffinio'n fwy penodol bob amser na dim ond y dosbarth pleidleisio yn unig - er enghraifft, drwy ddynodi enw'r man pleidleisio (fel arfer adeilad penodol neu ardal a'r cyffiniau).

Gorsaf bleidleisio

2.16 Yr orsaf bleidleisio yw'r ystafell neu'r ardal o fewn man pleidleisio lle mae pleidleisio yn digwydd. Yn wahanol i ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio sy'n cael eu pennu gan yr awdurdod lleol, caiff gorsafoedd pleidleisio eu dewis gan y Swyddog Canlyniadau perthnasol ar gyfer yr etholiad.

3 Cwmpas adolygiadau gorfodol

3.1 Nid yw dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio ar gyfer etholiadau eraill yn awtomatig yn rhan o'r adolygiad gorfodol. Fodd bynnag, gan fod dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio ar gyfer etholiadau eraill yn seiliedig ar drefniadau pleidleisio Senedd y DU, dylid cymryd i ystyriaeth ofynion unrhyw etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal o fewn ardal yr awdurdod lleol fel rhan o'r adolygiad. Mae hyn yn golygu, er mai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw'r prif Swyddog Canlyniadau i ddibenion yr adolygiad a bod

ganddo rôl statudol i gymryd rhan ynddo, dylid cynnwys holl Swyddogion Canlyniadau'r etholaeth (os nad ydynt hefyd yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)) yn y broses adolygu.

4 Gofynion adolygiad

Trosolwg o'r gofynion deddfwriaethol

Dynodi dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio

4.1 Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol canlynol ynghylch dynodi dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio:

- bob plwyf yn Lloegr a chymuned yng Nghymru i fod yn ddosbarth pleidleisio ar wahân, oni bai bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol
- yn yr Alban, rhaid i bob ward etholiadol gael ei rhannu'n ddau neu fwy o ddosbarthiadau pleidleisio ar wahân, oni bai bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol
- rhaid i'r cyngor ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth pleidleisio, oni bai fod maint neu amgylchiadau eraill dosbarth pleidleisio yn golygu nad yw lleoliad y gorsafoedd pleidleisio yn cael effaith sylweddol ar hwylustod yr etholwyr
- rhaid i'r man pleidleisio yn ardal yn y dosbarth, oni bai bod amgylchiadau arbennig yn ei gwneud yn ddymunol dynodi ardal sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol tu allan i'r ardal (er enghraifft, os na ellir dynodi unrhyw fan pleidleisio hygyrch yn yr ardal)
- rhaid i'r man pleidleisio fod yn ddigon bach i ddangos i etholwyr mewn gwahanol rannau o'r ardal sut y gallant gyrraedd yr orsaf bleidleisio

Hygyrchedd

4.2 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd gydymffurfio â'r gofynion mynediad canlynol. Fel rhan o'r adolygiad, rhaid iddynt:

- geisio sicrhau bod gan yr holl etholwyr mewn etholaeth yn ardal yr awdurdod lleol gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio, fel sy'n ymarferol dan yr amgylchiadau
- geisio sicrhau cyn belled ag y mae'n rhesymol ac yn ymarferol bod bob man pleidleisio y mae'n gyfrifol amdano yn hygyrch i etholwyr sy'n anabl

4.3 Rhaid i'r cyngor ystyried hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio posibl i bobl anabl mewn unrhyw le y mae'n ystyried ei ddynodi fel man pleidleisio neu ddynodiad o'r man pleidleisio y mae'n ei adolygu.

4.4 Gweler hefyd 'Ystyried materion hygyrchedd' isod.

Proses adolygu ffurfiol (Camau amserlen A1)

4.5 Wrth gynnal yr adolygiad, rhaid i awdurdodau lleol:

- gyhoeddi hysbysiad o gynnal adolygiad
- ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer pob etholaeth seneddol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei ardal
- cyhoeddi'r holl sylwadau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 30 diwrnod o'u derbyn trwy arddangos copi ohonynt yn swyddfa'r awdurdod lleol ac mewn o leiaf un man amlwg yn eu hardal ac, os yw'r awdurdod yn cynnal gwefan, trwy osod copi cyhoeddus ar wefan yr awdurdod
- gofyn am sylwadau gan bersonau y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau i bobl â gwahanol fathau o anabledd. Mae'n rhaid i bobl o'r fath gael cyfle i wneud sylwadau, ac i roi sylwadau ar y sylwadau a wnaed gan y Swyddog(ion) Canlyniadau (Gweithredol)
- ar ôl cwblhau'r adolygiad, rhoi rhesymau dros ei benderfyniadau a chyhoeddi:

    a. pob gohebiaeth a anfonwyd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn cysylltiad â'r adolygiad
    b. pob gohebiaeth a anfonwyd at unrhyw berson y mae'r awdurdod o'r farn sy'n meddu ar arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau i bobl â gwahanol fathau o anabledd
    c. yr holl sylwadau a wnaed gan unrhyw berson mewn cysylltiad â'r adolygiad
    d. cofnodion unrhyw gyfarfod a gynhaliwyd gan y cyngor i ystyried unrhyw ddiwygiad i'r dynodiad o ddosbarthiadau pleidleisio neu fannau pleidleisio o fewn ei ardal o ganlyniad i'r adolygiad
    e. manylion am y dynodiad o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio o fewn ardal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r adolygiad
    f. manylion am y lleoedd lle mae canlyniadau'r arolwg wedi cael eu cyhoeddi

Ystyried materion hygyrchedd

4.6 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i adolygu hygyrchedd yr holl leoedd pleidleisio i bleidleiswyr anabl a sicrhau bod pob man pleidleisio, a darpar fan pleidleisio, y mae'n gyfrifol amdano yn hygyrch i bleidleiswyr anabl 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol'.

4.7 Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys tri gofyniad. I ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, y gofynion hyn yw:

- Pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi pobl anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl, i gymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais honno.
- Pan fo nodwedd ffisegol yn rhoi pobl anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl i osgoi'r anfantais honno neu

fabwysiadu dull rhesymol arall o ddarparu'r gwasanaeth neu arfer y swyddogaeth.
- Lle nad yw darparu cymorth ategol[1] yn rhoi pobl anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, i ddarparu'r cymorth ategol.

4.8 Yn adroddiad Scope 2010 'Polls Apart 2010: Opening elections to disabled people' gwnaethpwyd yn glir fod mynediad yn dal i fod yn rhwystr i rai pobl anabl sydd am fwrw eu pleidlais yn bersonol.

4.9 Isod, mae rhai o'r prif faterion mynediad ffisegol a nodwyd gan SCOPE, y dylid eu hystyried fel rhan o'r adolygiad:

- mannau pleidleisio a gorsafoedd gyda stepiau i mewn i'r fynedfa, neu sydd fel arall yn anhygyrch
- drysau a choridorau cul
- diffyg lle yn y man pleidleisio, nad yw'n galluogi hydrinedd cadeiriau olwyn modur
- diffyg lle a chyfrinachedd i'r etholwr a'u cydymaith drafod dewis pleidlais yr etholwr
- diffyg bythau pleidleisio lefel isel neu fythau/ byrddau nad ydynt yn rhoi hyder i bleidleiswyr anabl eu bod yn gallu bwrw eu pleidlais yn y dirgel gan eu bod wedi cael eu lleoli yn agos at staff yr orsaf bleidleisio
- diffyg cadeiriau i alluogi pobl i orffwys
- diffyg arddangosfa glir o ganllawiau neu gymhorthion (megis dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol) i alluogi pobl i deimlo'n hyderus am y broses
- goleuo annigonol

4.10 Mae Deddf Etholiadau 2022 yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i ddarparu i bob gorsaf bleidleisio unrhyw gyfarpar y mae'n rhesymol ei ddarparu at ddibenion galluogi pobl berthnasol i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol, neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hyn. Felly, dylai'r adolygiad gynnwys ystyriaeth o p'un a all yr adeilad gynnwys y cyfarpar y byddwch yn ei ddarparu er mwyn cefnogi pleidleiswyr anabl.

4.11 Yn Atodiad A o'r canllawiau hyn rydym yn darparu rhestr wirio hygyrchedd y gellir ei defnyddio i asesu pa mor addas yw pob man pleidleisio a gorsaf bleidleisio, sy'n cynnwys y materion hyn yn ogystal â materion eraill.

4.12 Yn ogystal ag ysgrifennu at y grwpiau neu unigolion hynny y mae'r awdurdod lleol wedi eu nodi fel rhai ag arbenigedd mewn materion mynediad, dylai'r awdurdod hefyd ymgysylltu ag unrhyw grŵp mynediad anabledd mewnol a/neu swyddog anabledd fel rhan o'r adolygiad.

[1] Yng nghyd-destun gorsaf bleidleisio, gallai cymorth ategol fod, er enghraifft, yn ramp ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

5 Cynllunio'r adolygiad gorfodol nesaf: 1 Hydref 2023 – 31 Ionawr 2025 (yn gynhwysol)

5.1 Bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu pryd y maent am gynnal yr adolygiad gorfodol nesaf o fewn yr amserlenni a ddarperir gan y ddeddfwriaeth.

5.2 Er na all yr adolygiad gorfodol nesaf ddechrau cyn 1 Hydref 2023, gall awdurdodau lleol ddechrau cynllunio ar gyfer yr adolygiad cyn hynny. Mae yna hefyd rai camau paratoi, a nodir isod, y gellir eu cymryd sy'n disgyn tu allan i ofynion cyfreithiol ffurfiol yr adolygiad.

5.3 Er enghraifft, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dechrau casglu ystadegau a gwybodaeth a allai eu cynorthwyo yn ystod yr adolygiad. Gall y rhain gynnwys:

- Ffigyrau etholwyr, wedi'u torri i lawr i lefel y stryd mewn wardiau a dosbarthiadau pleidleisio presennol.
- Unrhyw ystadegau awdurdod lleol neu ystadegau cenedlaethol sy'n amcangyfrif newid ym mhoblogaeth yr ardal.
- Yng Nghymru a Lloegr, adroddiad gan adran gynllunio'r awdurdod sy'n rhoi manylion am unrhyw ardaloedd datblygiad newydd arfaethedig a'r nifer bras o anheddau a nifer y boblogaeth disgwyliedig ar gyfer yr ardaloedd hynny. Yn yr Alban, gellir cael y wybodaeth hon gan yr Archwiliad Tir ar gyfer Tai.
- Mapiau cyfredol manwl ar raddfa a fydd yn cynorthwyo i ddynodi ffiniau dosbarth pleidleisio.
- Manylion o leoedd pleidleisio presennol ac awgrym ynglŷn â'u haddasrwydd i bwrpas cyffredinol (gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw arolygon, diagramau neu ffotograffau a gwblhawyd gyda chymorth Swyddogion Llywyddu neu arolygwyr gorsaf bleidleisio neu fel rhan o adolygiad blaenorol neu werthusiad ôl-etholiad). Gellir cael canllawiau pellach yn 'Asesu'r trefniadau presennol a'r cynigion ar gyfer newid'.
- Unrhyw sylwadau neu gwynion am y trefniadau presennol gan y cyhoedd, aelodau etholedig neu gyrff eraill.
- Gwybodaeth gyfredol a gafwyd gan reolwyr lleoliadau gorsafoedd pleidleisio presennol neu i'r dyfodol ynglŷn ag argaeledd parhaus (gan dynnu sylw, er enghraifft, at unrhyw waith adnewyddu cynlluniedig neu gynlluniau eraill i'r dyfodol).
- Manylion am adeiladau amgen posibl (adeiladau cyhoeddus, preifat neu dros dro) a allai ymddangos yn addas.
- Cyngor a chanllawiau gan grwpiau anabledd lleol a mudiadau anabledd (fel, er enghraifft, SCOPE neu Capability Scotland), ac unrhyw gymorth arbenigol gan swyddogion yn y cyngor sy'n gyfrifol am gynlluniau cydraddoldeb.
- Cylch gorchwyl a'r meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd y trefniadau presennol/ arfaethedig

5.4 Gallai awdurdodau lleol hefyd osod yr amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiad. Gall hyn gynnwys trefnu dyddiad y cyfarfod y cyngor/grŵp gweithredol/pwyllgor lle byddai cynigion yr adolygiad manwl yn cael eu hystyried yn ffurfiol.

5.5 Gallai'r dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi neu eu cyfathrebu yn ystod yr adolygiad, fel yr hysbysiad adolygiad a'r llythyrau i Swyddogion Canlyniadau a'r rhai sydd ag arbenigedd mewn mynediad i'r anabl, hefyd gael eu paratoi. Fodd bynnag, ni all yr hysbysiad gael ei gyhoeddi na'r llythyrau gael eu hanfon cyn 1 Hydref 2023.

5.6 Wrth gynllunio ar gyfer yr adolygiad, bydd angen i'r awdurdod lleol nodi pwy fydd yn arwain ac yn cefnogi'r adolygiad, gan dynnu ar bersonél ar wahân i rai'r gwasanaethau etholiadol, fel rhai o rannau eraill o'r awdurdod a all fod ag arbenigedd i gynorthwyo. Unwaith eto, gall hyn gael ei wneud cyn cychwyn y cyfnod adolygu gorfodol.

Cynnal adolygiad rhagarweiniol

5.7 Dylai'r awdurdod lleol gynnal adolygiad cychwynnol o'r dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio presennol gyda golwg ar sefydlu eu haddasrwydd, a nodi unrhyw ddewisiadau eraill posibl lle bo angen. Gall hyn gael ei wneud cyn cychwyn y cyfnod adolygu penodedig.

5.8 Nid oes unrhyw ofyniad i newid unrhyw un o'r dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio os ydynt yn addas, ond rhaid cyfiawnhau'n llawn unrhyw benderfyniad 'dim newid' fel rhan o'r cynigion cyffredinol.

5.9 Dylai'r broses adolygu fod yn strwythuredig a rhaid ei chynnal yn ffurfiol gyda dogfennaeth ategol. Bydd hyn yn sicrhau bod trywydd archwilio cyflawn ar gyfer yr holl benderfyniadau a wneir, a fydd yn cyfrannu at dryloywder y broses.

5.10 Bydd cyswllt agos gydag adrannau eraill y cyngor, fel cyfathrebu, y rhai sy'n darparu gwasanaethau i drigolion anabl a chynllunio yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd y broses adolygu gyffredinol.

5.11 Mae adrannau cynllunio a gwasanaethau eiddo'r awdurdod lleol, er enghraifft, yn gallu rhoi arweiniad ar argaeledd lleoliadau ac adeiladau a manylion am unrhyw ddatblygiadau preswyl a allai gael effaith ar ffigyrau etholwyr yn y dyfodol.

5.12 Gall modelu opsiynau posibl lle y tybir bod newidiadau yn angenrheidiol gael ei wneud trwy ddefnyddio offer mapio a chynllunio sydd ar gael o fewn yr awdurdod lleol, yn enwedig gan y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau nawr â mynediad at wasanaethau mapio GIS, a all dynnu data o amrywiaeth o ffynonellau.

5.13 Dylai awdurdodau lleol benderfynu ar y dull mwyaf priodol o gynnwys staff yr awdurdod lleol perthnasol a grwpiau eraill sydd â diddordeb, fel y bo'n briodol.

Asesu’r trefniadau presennol a chynigion ar gyfer newid

5.14 Mae'r ddeddfwriaeth yn awgrymu dull sy’n dechrau gyda dosbarthiadau pleidleisio, ac yna drwy ddewis mannau pleidleisio ac yna ystyried gorsafoedd pleidleisio. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'n bwysig bod mannau pleidleisio o ansawdd da yn cael eu nodi’n gyntaf, y gellir wedyn eu defnyddio fel rhan o'r broses o ddiffinio trefniadau dosbarth pleidleisio addas sy'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae Atodiad A yn darparu templedi rhestrau gwirio i gynorthwyo gyda gwerthuso'r mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio presennol/arfaethedig.

Dosbarthiadau pleidleisio

5.15 Dylai'r canlynol gael eu hystyried fel rhan o'r asesiad o addasrwydd ffiniau dosbarthiadau pleidleisio:

- A yw'r ffiniau wedi'u diffinio'n dda? Er enghraifft, a ydynt yn dilyn ffiniau naturiol yr ardal? Os nad ydynt, a yw'n glir pa anheddau sy’n perthyn i’r dosbarth pleidleisio?
- A oes cysylltiadau cludiant addas o fewn y dosbarth pleidleisio, a sut maent yn ymwneud â'r ardaloedd dosbarth pleidleisio mwyaf poblog? A oes unrhyw rwystrau i bleidleiswyr groesi'r dosbarth pleidleisio presennol a chyrraedd y man pleidleisio, e.e. bryniau serth, prif ffyrdd, rheilffyrdd, afonydd?

Mannau pleidleisio

5.16 Mae nifer o ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth adolygu mannau pleidleisio presennol neu wrth asesu mannau pleidleisio newydd, gan gynnwys:

Lleoliad: A yw'n rhesymol hygyrch o fewn y dosbarth pleidleisio? A yw'n osgoi rhwystrau i bleidleisiwr, fel bryniau serth, prif ffyrdd, afonydd, ayb? A oes unrhyw gysylltiadau cludiant cyfleus?

- **Maint:** A yw’r adeilad yn gallu cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio os bydd angen? Os bydd angen nifer o orsafoedd pleidleisio, a yw’r man pleidleisio yn gallu cynnwys y pleidleiswyr i gyd a’r nifer o staff sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth da i bleidleiswyr? A yw maint yr adeilad yn ddigon i allu darparu mannau preifat angenrheidiol neu sgriniau preifatrwydd ar gyfer gwiriadau ID ffotograffig? A yw maint yr adeilad yn ddigon mawr i sicrhau llif y pleidleiswyr a lleihau’r perygl o dagfeydd a chiwiau sy’n mynd mewn ac allan o’r gorsafoedd pleidleisio, hyd yn oed pan fod nifer fawr o bobl yn pleidleisio?
-
- **Argaeledd:** A yw'r adeilad ar gael yn hawdd petai unrhyw etholiadau nad ydynt wedi eu hamserlennu? A oes unrhyw bosibilrwydd y bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel fel rhan o ddatblygiad newydd?
- **Hygyrchedd:** A yw’r adeilad yn hygyrch i bawb sydd â hawl i fynychu’r man pleidleisio? A yw’r adeilad yn gallu cynnwys unrhyw gyfarpar sy’n cael ei ddarparu er mwyn cefnogi pleidleiswyr anabl?

5.17 Yn ddelfrydol, byddai dewis o ystod o adeiladau cwbl hygyrch, wedi'u lleoli'n gyfleus ar gyfer etholwyr yn yr ardal lle bo angen sefydlu gorsafoedd

pleidleisio. Yn ymarferol, fodd bynnag, bydd y dewis o fannau pleidleisio yn aml yn golygu cydbwysedd rhwng ansawdd yr adeilad (mynediad, cyfleusterau, ayb) ac agosrwydd yr adeilad at yr etholwyr. Wrth wneud penderfyniad, bydd angen ystyried yr holl ffactorau hyn, a bydd angen i'r awdurdod allu dangos eu rhesymu tu ôl i'r penderfyniad.

5.18 Lle bo man pleidleisio wedi cael ei ddewis oherwydd amgylchiadau lleol er nad yw'n gwbl hygyrch, yna rhaid gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu mynediad i'r holl etholwyr. Fel arall, dylai'r awdurdod lleol ystyried a fyddai'n briodol dynodi man pleidleisio sydd tu allan i'r dosbarth pleidleisio.

5.19 Mae rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud ag asesu os yw'r man pleidleisio yn gallu cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio, ynghyd â'r staff a'r offer angenrheidiol, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae nifer yr etholwyr a ddyrannwyd i'r man pleidleisio yn uchel. Ni ddylai nifer yr etholwyr a ddyrennir i orsaf bleidleisio benodol fod yn fwy na 2,250.

5.20 Mewn achosion lle gall fod nifer uwch o bobl yn pleidleisio, fel mewn etholiad Seneddol y DU, efallai bydd y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn dymuno sefydlu gorsafoedd pleidleisio lluosog o fewn y man pleidleisio. Bydd angen ystyried p'un a all maint a gosodiad yr ardal neu'r adeilad gynnwys y fath drefniadau.

Gorsafoedd pleidleisio

5.21 Wrth asesu pa mor addas yw ystafell neu ardal i'w ddefnyddio fel gorsaf bleidleisio, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sut y byddai'r maint a gosodiad yn caniatáu ar gyfer y mewnbwn mwyaf effeithiol o bleidleiswyr, gan gymryd i ystyriaeth pa mor hir y byddai'n cymryd i wirio ID ffotograffig pleidleiswyr wrth sicrhau llif y pleidleiswyr a lleihau'r perygl o dagfeydd a chiwiau. Dylid hefyd ystyried yr achosion hynny lle bydd nifer fawr o etholwyr mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw un adeg.

5.22 Dylai pob gorsaf bleidleisio gael ei chynllunio i ddarparu amodau addas i'r etholwr ddangos ei ID ffotograffig yn breifat ac i bleidleisio yn breifat, i staff gynnal yr etholiadau mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac i'r rhai sydd â hawl i arsylwi ar y broses bleidleisio allu gwneud hynny heb beryglu cyfrinachedd y bleidlais.

Defnyddio ysgolion

5.23 Dylid nodi at ddiben cymryd y pôl yng Nghymru a Lloegr, fod gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i ddefnyddio ysgolion a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurdod lleol, yn rhad ac am ddim yn ogystal â'r ysgolion hynny sy'n derbyn grantiau arian a ddarperir gan y Senedd. Mae hyn yn cynnwys academïau ac ysgolion rhydd. Yn yr Alban, yr ystafelloedd mewn ysgolion y gellir eu defnyddio yn rhad ac am ddim at ddiben cymryd y pôl yw'r rheiny mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion annibynnol o fewn ystyr Deddf Addysg 1980 (Yr Alban).

6 Y broses adolygu

Cam 1 – Hysbysiad o'r adolygiad

6.1 Mae cychwyn ffurfiol yr adolygiad ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o gynnal adolygiad. Rhaid i'r hysbysiad:

- gael ei arddangos yn swyddfa'r awdurdod lleol ac mewn o leiaf un man amlwg o fewn yr awdurdod
- gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol

6.2 Yn ogystal, gallai'r awdurdod arddangos copïau mewn adeiladau cyhoeddus eraill ac, yn benodol, yr adeiladau hynny a fynychir gan drigolion anabl. Dylai swyddog anabledd yr awdurdod allu rhoi arweiniad ar y mannau mwyaf addas ar gyfer cyrraedd trigolion anabl.

6.3 Nid yw cynnwys y hysbysiad yn rhagnodedig, ond dylai nodi:

- bod yr awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio
- y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwneud sylw ar orsafoedd pleidleisio arfaethedig, ac arwydd o pryd a ble y bydd y sylwadau y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cael eu gwneud ar gael
- y gall etholwyr o fewn yr awdurdod neu o fewn etholaeth Seneddol y DU sydd ag unrhyw ran yn yr awdurdod gyflwyno sylwadau
- y byddai'r awdurdod yn croesawu barn yr holl drigolion, yn enwedig trigolion anabl, ar gynigion yr awdurdod, sylwadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu unrhyw faterion eraill
- os yn bosibl, y dylai personau neu gyrff sy'n cyflwyno sylwadau gynnig lleoedd eraill y gellir eu defnyddio fel mannau pleidleisio
- cyfeiriad, cyfeiriad post e-bost a chyfeiriad gwefan lle gellir archwilio dogfennau a chyflwyno sylwadau
- arwydd o amserlen yr adolygiad a'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau

6.4 Dylai'r awdurdod hefyd anfon copi o'r hysbysiad at bartïon â diddordeb, fel cynrychiolwyr etholedig (Cynghorwyr, Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Senedd yr Alban, ayb.), pleidiau gwleidyddol, grwpiau anabledd a rhanddeiliaid eraill. Hefyd gallai'r awdurdod gyhoeddi datganiad i'r wasg a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at yr adolygiad a'r broses.

Cam 2 – Ymgynghoriad

6.5 Mae'r cam ymgynghori ar gyfer gwneud sylwadau ar y trefniadau dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio presennol ac arfaethedig. Mae dwy agwedd ar y cam hwn:

- Cyflwyniad gorfodol gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) etholaeth neu etholaethau seneddol y DU, y mae'n rhaid wedyn i'r awdurdod lleol ei gyhoeddi.
- Cyflwyniadau gan etholwyr ac unigolion a chyrff eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig a'r rhai sydd ag arbenigedd mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau ar gyfer pobl anabl.

Cyflwyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

6.6 Mae'n rhaid i gyflwyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi sylwadau ar y gorsafoedd pleidleisio presennol a'r gorsafoedd pleidleisio a fyddai'n debygol o gael eu defnyddio, yn seiliedig ar unrhyw fannau pleidleisio arfaethedig. Rhaid i adroddiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd gynnwys gwybodaeth am leoliad y gorsafoedd pleidleisio yn y mannau pleidleisio. Gall cwblhau'r templedi yn Atodiad A fod o gymorth i ffurfio sail i'r adroddiad hwn.

6.7 Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi sylwadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 30 diwrnod calendr o'u derbyn. Dylai'r sylwadau gael eu cyhoeddi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol ac mewn o leiaf un man amlwg o fewn pob etholaeth Seneddol y DU sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal yr awdurdod lleol. Dylent hefyd gael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol. Yn ogystal, gallai ymateb y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gael ei gopïo a'i wneud ar gael yn swyddfeydd y cyngor, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu fannau eraill lle y gall trigolion ymweld â hwy.

Ymgyngoreion

6.8 Dylai'r awdurdod ymgynghori'n eang ar yr adolygiad a dylai geisio barn grwpiau neu gyrff â diddordeb, gan gynnwys etholwyr, ymgeiswyr ac asiantau, pleidiau gwleidyddol ac aelodau o'r cyngor, yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig eraill (Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Senedd yr Alban, ayb.).

6.9 Bydd yn arbennig o bwysig ymgynghori â'r rhai sydd â phrofiad penodol o asesu mynediad i bobl gyda gwahanol anableddau. Gallai'r rhain gynnwys adrannau anabledd neu adrannau iechyd galwedigaethol o fewn y cyngor, yn ogystal â grwpiau anabledd lleol a chenedlaethol. Dylai'r awdurdod ystyried y gwahanol fathau o anabledd a allai wneud pleidleisio'n bersonol yn fwy anodd, a dylai hefyd ystyried polisi'r cyngor ei hun ar fynediad i'r anabl. Dylid gofyn i ymgyngoreion am sylwadau cyffredinol ac, os yw'n briodol, ynghylch adeiladau neu ardaloedd penodol o fewn yr awdurdod.

6.10 Mae gan unrhyw bersonau sy'n rhan o'r ymgynghoriad yr hawl i wneud sylwadau ar yr argymhellion a gynigiwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

6.11 Gall unrhyw etholwr mewn etholaeth Seneddol y DU sydd naill ai'n gyfan gwbl o fewn neu'n rhannol o fewn ardal yr awdurdod lleol wneud sylwadau ar unrhyw un o'r argymhellion o fewn ardal gyfan yr awdurdod lleol.

6.12 Dylai unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud sylw gael eu gwahodd i awgrymu dosbarthiadau pleidleisio /mannau pleidleisio amgen a dylid eu hannog i roi rheswm dros y cynnig amgen fel y gellir rhoi ystyriaeth briodol iddo. Fel y soniwyd uchod, dylai'r hysbysiad a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol roi terfyn amser ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Cam 3 – Cwblhau'r adolygiad

6.13 Ar ôl ystyried yr holl sylwadau, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ar y dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio mwyaf priodol, a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor.

6.14 Os bydd yr adolygiad yn arwain at newid un neu fwy o ddosbarthiadau pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud y newidiadau angenrheidiol i'r gofrestr etholiadol. Yn dibynnu ar amseriad yr adolygiad a graddau'r newidiadau, mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol dri dewis er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r dosbarthiadau pleidleisio newydd:

- diweddaru'r gofrestr pan gyhoeddir y gofrestr ddiwygiedig yn dilyn diwedd y canfas blynyddol
- ailgyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ar bwynt arall yn ystod y flwyddyn
- cyhoeddi hysbysiad o addasiad

6.15 Pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi penderfynu adolygu eu cofrestr trwy ei hailgyhoeddi i gynnwys y newidiadau, mae'r gyfraith yn mynnu bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol 14 diwrnod calendr cyn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr, yn eu swyddfa ac mewn man neu fannau amlwg arall yn yr ardal. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer cyhoeddi rhan o'r gofrestr – dim ond ar gyfer y cyfan o ardal yr awdurdod lleol y gall cofrestr ddiwygiedig gael ei chyhoeddi.

6.16 Daw unrhyw newid i rym ar y dyddiad y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi hysbysiad yn datgan bod y newidiadau wedi cael eu gwneud, a dylai hwn gael ei gyhoeddi ar yr un pryd ag y caiff y gofrestr ei diwygio neu hysbysiad o newid ei gyhoeddi, fel y bo'n briodol.

Cam 4 – Cyhoeddi casgliadau'r adolygiad

6.17 Unwaith y bo'r cyngor wedi cytuno ar y cynigion, rhaid i fanylion y dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio newydd fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r rhain fod ar gael yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, mewn o leiaf un man amlwg yn yr etholaeth (neu etholaethau), ac ar wefan yr awdurdod lleol. Rhaid rhoi'r rhesymau dros ddewis pob dosbarth pleidleisio penodol a man pleidleisio.

6.18 Ynghyd â'r rhesymau dros benderfyniad terfynol yr adolygiad, rhaid cyhoeddi'r canlynol hefyd:

- pob gohebiaeth a anfonwyd at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn cysylltiad â'r adolygiad
- pob gohebiaeth a anfonwyd at unrhyw berson y cysylltodd yr awdurdod â hwy oherwydd fod ganddynt arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau i bobl anabl
- yr holl sylwadau a wnaed gan unrhyw berson mewn cysylltiad â'r adolygiad
- cofnodion unrhyw gyfarfod a gynhaliwyd gan y cyngor i ystyried unrhyw ddiwygiad i'r dynodiad o ddosbarthiadau pleidleisio neu fannau pleidleisio o fewn ei ardal o ganlyniad i'r adolygiad
- manylion am y dynodiad o ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio o fewn ardal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r adolygiad
- manylion am y lleoedd lle mae canlyniadau'r arolwg wedi cael eu cyhoeddi

6.19 Mae'n bwysig bod etholwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a wnaed i'r lle mae'n rhaid iddynt fynd i bleidleisio. Er enghraifft, gallai'r cerdyn pleidleisio ar gyfer yr etholiad nesaf y byddant â hawl i bleidleisio ynddo ddangos p'un a yw eu gorsaf wedi newid.

7 Y broses apêl

7.1 Ar ôl i adolygiad yr awdurdod lleol gael ei gwblhau, mae gan bersonau penodol yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn. Os, ar ôl derbyn sylwadau o'r fath, ein bod yn canfod nad yw'r adolygiad awdurdod lleol wedi:

- bodloni gofynion rhesymol yr etholwyr yn yr etholaeth, neu gorff ohonynt, neu
- wedi ystyried digon ar hygyrchedd gorsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio mewn man pleidleisio dynodedig i bobl anabl

yna efallai y byddwn yn cyfarwyddo'r awdurdod i wneud unrhyw newidiadau i'r mannau pleidleisio yr ydym yn meddwl sy'n angenrheidiol ac, os nad yw'r newidiadau yn cael eu gwneud o fewn dau fis, gallwn wneud y newidiadau ein hunain.

Pwy sydd â hawl i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn?

7.2 Gall y canlynol wneud sylwadau:

- yn Lloegr, unrhyw gyngor plwyf sydd wedi ei leoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn pob etholaeth, neu gyfarfod plwyf lle nad oes cyngor o'r fath
- yng Nghymru, unrhyw gyngor cymuned sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn pob etholaeth
- deg ar hugain neu fwy o etholwyr cofrestredig ym mhob etholaeth (er na all etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw wneud sylwadau)

- person (ac eithrio'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)) a wnaeth sylwadau i'r awdurdod pan oedd yr adolygiad yn cael ei gynnal
- unrhyw berson nad yw'n etholwr mewn etholaeth yn ardal yr awdurdod, ond y mae'r Comisiwn yn credu bod ganddo ddigon o ddiddordeb mewn hygyrchedd pobl anabl i fannau pleidleisio yn yr ardal neu arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo neu gyfleusterau i bobl anabl

7.3 Yn ogystal, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud sylwadau ar unrhyw sylwadau a wnaed i ni.

Fformat ar gyfer yr holl sylwadau

7.4 Rhaid i'r holl sylwadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post, e-bost neu ffacs. Mae'n rhaid i'r sylwadau fod mor benodol â phosibl a dylent nodi'n glir y modd y mae'n cael ei honni bod yr awdurdod lleol wedi methu â chynnal yr adolygiad yn briodol. Dim ond ar ddau sail y gall sylwadau gael eu cyflwyno. Y rhain yw:

- bod yr awdurdod lleol wedi methu â bodloni gofynion rhesymol yr etholwyr yn yr etholaeth
- bod yr awdurdod lleol wedi methu â rhoi digon o ystyriaeth i hygyrchedd gorsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio mewn man pleidleisio i bobl anabl.

7.5 Ni fydd sylwadau yn seiliedig ar unrhyw dybiaeth arall yn cael eu hystyried.

7.6 Dylai'r sylwadau gynnwys lleoliad y man pleidleisio ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y man pleidleisio dan sylw, gan nodi yn benodol pam ei fod yn anhygyrch neu nad yw'n bodloni gofynion rhesymol yr etholwyr.

7.7 Gall sylwadau hefyd gynnwys gynigion penodol i'w hystyried ar gyfer newid y lle sydd wedi ei ddynodi fel y man pleidleisio.

Proses gwneud penderfyniadau'r Comisiwn

7.8 Ar ôl derbyn sylwadau, byddwn yn gofyn am yr holl ddogfennaeth berthnasol gan yr awdurdod lleol a byddwn yn dangos y sylwadau i'r awdurdod.

7.9 Mae gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yr hawl i wneud sylwadau ar y sylwadau a gyflwynwyd i ni a dylent roi adroddiad ar yr orsaf bleidleisio (gorsafoedd pleidleisio) a fyddai'n debygol o gael ei (eu) defnyddio petai'r sylwadau hyn yn llwyddiannus.

7.10 Ystyrir y ddogfennaeth gan yr awdurdod lleol, sylwadau y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall ar y cyd gyda'r sylwadau.

7.11 Efallai y byddwn yn gofyn am gyngor gan bobl sydd ag arbenigedd ar faterion hygyrchedd wrth wneud ein penderfyniad.

7.12 Byddwn yn nodi'n ysgrifenedig ein casgliadau a'r rhesymau dros ein penderfyniad. Bydd ein penderfyniad yn cael ei roi i'r person(au) a wnaeth y sylwadau, yr awdurdod lleol a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Bydd y penderfyniad a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae awdurdodau lleol yn cael eu cynghori i gyhoeddi canlyniad yr apêl yn yr un modd ag y mae canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi.

7.13 Efallai y byddwn yn cyfarwyddo'r awdurdod lleol i ystyried unrhyw newidiadau i'r mannau pleidleisio yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol o dan yr adolygiad. Ar ôl dau fis, os yw'r awdurdod lleol wedi methu â gwneud y newidiadau, gallwn wneud y newidiadau ein hunain fel petai'r awdurdod lleol wedi eu gweithredu.

7.14 Dylid anfon sylwadau at:

Y Cwnsler Cyfreithiol
Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
E-bost: appeals@electoralcommission.org.uk

7.15 Ceir gwybodaeth bellach am apeliadau blaenorol, gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiwn ar ein gwefan.

8 Gwneud newidiadau i fannau pleidleisio tu allan i'r cyfnod adolygu gorfodol a chynnal adolygiadau interim

8.1 Os na fydd gorsaf bleidleisio ar gael, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried a allai gorsaf bleidleisio arall gael ei dynodi o fewn y man pleidleisio. Ni fyddai newid yr orsaf bleidleisio o fewn y man pleidleisio angen adolygiad.

8.2 Os nad yw adeilad ar gael cyn etholiad, gall y man pleidleisio gael ei newid gan yr awdurdod lleol yn unol â threfniadau gwneud penderfyniadau. Os yw gweithdrefnau dirprwyo yn eu lle, er enghraifft, i bwyllgor o'r cyngor, dylid dilyn y rhain fel y nodwyd yng nghyfansoddiad y cyngor a dylid cysylltu â'r person neu'r personau sydd â hawl i wneud newidiadau i'r mannau pleidleisio.

8.3 Rhwng adolygiadau gorfodol, dylai pob man pleidleisio a gorsaf bleidleisio a ddefnyddir gael eu cadw dan ystyriaeth, a chynnal gwerthusiad o'u haddasrwydd ar ôl pob etholiad. Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu

nodi fel rhai dymunol, dylid dilyn yr un camau fel ar gyfer cynnal yr adolygiad gorfodol.

8.4 Gall y cyngor gynnal adolygiad interim a newid rhai o'i ddosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio cyn diwedd y cylch 5 mlynedd, ond dylai'r un prosesau gael eu gwneud ar gyfer yr ardaloedd yr effeithir arnynt o ran yr adolygiad gorfodol. Heb fynd drwy'r prosesau hyn, bydd y Cyngor yn ei chael yn anodd dangos tystiolaeth o'r broses gwneud penderfyniadau ac egluro sut maent wedi cymryd i ystyriaeth farn pobl anabl a gofynion rhesymol yr etholwyr.

Atodiad A - templedi

Mae'r templedi canlynol wedi cael eu cynllunio i'w defnyddio wrth werthuso addasrwydd adeiladau fel mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio.

Rhan A – i'w chwblhau gan yr awdurdod lleol gyda manylion y mannau pleidleisio presennol.

Rhan B – i'w chwblhau gan yr awdurdod lleol i'w llenwi gan yr awdurdod lleol i werthuso mynediad a chyfleusterau ardaloedd tu allan i berimedr yr adeilad ac o fewn ffin yr adeilad ei hun.

Rhan C – i'w chwblhau gan yr awdurdod lleol i asesu mynediad mewnol i'r orsaf bleidleisio, ond heb gynnwys yr orsaf bleidleisio ei hun (h.y. yn cynnwys y coridorau sy'n arwain at yr orsaf bleidleisio, ond nid yr ardal lle bydd pleidleisio yn cael ei gynnal), a'r cyfleusterau ar gael o fewn yr adeilad. Os oes gan yr adeilad, ystafell neu ardal arfaethedig i'w defnyddio fel yr orsaf bleidleisio fynediad uniongyrchol i'r ffordd/ palmant neu rannau allanol, gellir hepgor Rhan C o'r asesiad hwn.

Rhan D – i'w chwblhau gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyda manylion yr ardal sydd, neu sy'n debygol o gael, ei defnyddio fel yr orsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio.

(Os yw awdurdodau lleol eisoes â gwybodaeth fanwl gyfredol i helpu cwblhau Rhannau B, C a D, gall hyn gael ei fewnosod yn y templedi unigol ynghyd ag unrhyw ddiagramau a/ neu ffotograffau er mwyn i'r adeilad gael ei ailasesu ar ymweliad safle. Dylai'r wybodaeth gael ei gwirio fel rhan o'r ymweliad.)

Rhan E – i'w chwblhau gan yr awdurdod lleol gydag unrhyw sylwadau neu gwynion a dderbynnir gan randdeiliaid fel rhan o'r ymarfer ymgynghori. Gall cwblhau'r rhan hon roi tystiolaeth bod yr adolygiad wedi ystyried y cyflwyniadau fel rhan o'r broses werthuso ffurfiol.

Dylai unrhyw gynigion amgen neu awgrymiadau a gyflwynwyd ar gyfer mannau/ gorsafoedd pleidleisio newydd gael eu gwerthuso gan ddefnyddio'r templedi, a dylai'r canlyniadau gael eu casglu er mwyn hwyluso darparu adborth priodol.

Man pleidleisio/gorsaf bleidleisio – rhestr wirio gwerthuso

Rhan A – Manylion man pleidleisio presennol	
Dynodwr man pleidleisio	
Enw'r man pleidleisio	
Cyfeiriad y man pleidleisio	
Nifer yr etholwyr (Os oes mwy nag un orsaf bleidleisio o fewn y man pleidleisio, nodi'r rhaniad etholwyr)	
Argaeledd yr adeilad ar gyfer etholiadau/ refferenda yn y dyfodol	

Adolygiad man pleidleisio		
Gwirio	√	**Sylw**
• A oes cysylltiadau cludiant addas?		
• A oes unrhyw faterion mynediad ynghylch prif ffyrdd/ ffyrdd prysur, rheilffyrdd, afonydd, ayb.?		
• A yw'r man pleidleisio yn gallu cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio ynghyd â'r staff a'r cyfarpar sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth da i bleidleiswyr? A yw maint yr adeilad yn ddigon i allu darparu mannau preifat angenrheidiol neu sgriniau preifatrwydd ar gyfer gwiriadau ID ffotograffig? A yw maint yr adeilad yn ddigon mawr i sicrhau llif y pleidleiswyr a lleihau'r perygl o dagfeydd a chiwiau, hyd yn oed pan fod nifer fawr o bobl yn pleidleisio?		
• A yw'r adeilad ar gael yn hawdd yn achos unrhyw etholiadau heb eu trefnu?		

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

• A oes unrhyw bosibilrwydd y bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel fel rhan o ddatblygiad newydd?		

Noder unrhyw gwynion / sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid mewn digwyddiadau etholiadol blaenorol

Rhan B – Mynediad a chyfleusterau ardaloedd allanol		
Gwirio	**(√)**	**Sylwadau**
• A oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus da i'r man pleidleisio?		
• A yw'r fynedfa at yr adeilad yn ddiogel ac yn rhydd o rwystrau ac a oes ganddo gwrbyn isel?		
• A yw'r adeilad yn hawdd ei adnabod?		
• A oes angen arwyddion ychwanegol rhwng y stryd a'r fynedfa?		
• A oes cyfleuster i osod yr arwyddion gofynnol ar gyfer y diwrnod pleidleisio?		
• A oes cyfleusterau i bobl anabl barcio?		
• A oes cyfleusterau i staff etholiad barcio?		
• A oes goleuadau allanol yn y fynedfa at yr adeilad??		
• A oes gan yr adeilad fynediad gwastad? Oes/Na Os na –		
• A oes ramp pwrpasol wedi'i osod?		
• Os felly a oes canllaw arno?		
• A oes llethr graddol i'r ramp?		
• A yw'r adeilad angen ramp dros dro neu a oes mynediad arall i'r anabl?		
• A yw'r drws yn ddigon llydan i sicrhau hygyrchedd da i bawb?		
• A yw'r drysau yn ddigon ysgafn i bleidleiswyr i gyd eu hagor?		
• A ellir arddangos yr hysbysiad 'Canllawiau ar gyfer pleidleiswyr' yn glir y tu allan i'r adeilad mewn safle lle gall pob pleidleisiwr ei ddarllen.		
• A oes gan yr adeilad dolen sain wedi'i gosod?		
• A oes unrhyw bryderon diogelwch allanol?		
• A ellir cynnwys rhifwyr tu allan i'r adeilad?		

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Cynllun allanol – B1

Dangoswch gynllun allanol, enw'r stryd(oedd), mannau parcio ceir (gan gynnwys parcio i'r anabl), rampiau, grisiau, goleuadau, llefydd priodol ar gyfer arwyddion, ayb.

Braslun o'r cynllun, darparwch ffotograffau fel y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Rhan C – Mynediad a chyfleusterau ardaloedd mewnol		
Gwirio	**(√)**	**Sylwadau**
• A yw'r holl ddrysau yn hawdd i'w hagor gan bob defnyddiwr neu a oes angen iddynt gael eu cloi'n ôl yn barhaol?		
• A oes unrhyw stepiau mewnol neu rwystrau/ peryglon?		
• A oes unrhyw fatiau drws sy'n wastad â'r llawr?		
• A yw'r gorchudd llawr yn un gwrthlithro (gan gynnwys mewn tywydd gwlyb)?		
• A oes unrhyw goridorau a allai achosi problemau mynediad?		
• A oes digon o oleuadau yn y coridorau?		
• A oes cyfleusterau toiled?		
• A oes cegin y gall staff ei defnyddio?		
• A yw'r ardal wedi'i goleuo'n ddigonol ar gyfer y dydd a'r nos?		
• A oes digon o le ar gyfer arwyddion?		
• Faint o orsafoedd pleidleisio a all yr adeilad eu darparu?		
• A oes seddi ar gael os bydd angen i etholwr eistedd i lawr?		
• A oes gan yr adeilad ffôn ar gael (llinell tir) mewn achos o broblemau rhwydwaith ffôn symudol?		

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Mynediad mewnol yn arwain at orsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio – C1

Dangoswch ardaloedd mewnol yr adeilad, heb gynnwys yr orsaf bleidleisio ei hun lle bydd pleidleisio'n digwydd, gan gynnwys coridorau sy'n cysylltu â'r orsaf bleidleisio, cegin a thoiledau, a thynnwch sylw at unrhyw ofynion arwyddion posibl a pheryglon posibl. Hefyd dangoswch i ba gyfeiriad mae'r drws yn agor a rhwyddineb agor, unrhyw ardaloedd o oleuadau gwael, ac unrhyw ardaloedd o lawr anwastad, ayb.

Braslun o'r cynllun, darparwch ffotograffau fel y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Rhan D – Yr orsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio		
Gwirio	**(√)**	**Sylwadau**
• A oes digon o le i letya'r man preifat neu'r sgrin preifatrwydd ar gyfer gwiriadau ID ffotograffig?		
• A oes digon o le i sicrhau llif y pleidleiswyr sy'n cael eu ID ffotograffig wedi'i wirio a lleihau'r perygl o dagfeydd a chiwiau, hyd yn oed pan fod nifer fawr o bobl yn pleidleisio?		
• Os oes angen darparu gorsafoedd pleidleisio lluosog, a oes ystafelloedd eraill ar gael, neu a ellir rhannu'r gofod yn glir i ddarparu digon o le i fwy nag un orsaf bleidleisio?		
• A oes digon o le tu mewn i'r orsaf bleidleisio i ddarparu yn gyfforddus ar gyfer staff, pleidleiswyr, asiantau pleidleisio ac arsylwyr?		
• A allai bythau pleidleisio gael eu lleoli mewn modd a fyddai'n cadw cyfrinachedd y bleidlais, hyd yn oed os oes nifer uchel o etholwyr?		
• A oes digon o oleuadau ar gyfer y dydd a'r nos?		
• A oes dodrefn addas (byrddau a chadeiriau) ar gael ar gyfer pob math o etholiad i staff etholiad ac i'r pleidleiswyr hynny sydd efallai angen gorffwys?		
• A ellid cynnwys cadeiriau olwyn modur?		
• A all yr hysbysiadau swyddogol gael eu lleoli a'u harddangos yn glir, gan gynnwys y fersiwn print bras o'r papur(au) pleidleisio, fel bod modd i bob pleidleisiwr eu darllen?		

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Mewnol – yr orsaf bleidleisio/ gorsafoedd pleidleisio – D1

Nodwch maint a siâp yr ardal ar gael ar gyfer pleidleisio. Dylech gynnwys lleoliad y drws (drysau), unrhyw ffenestri a sut y dylai'r dodrefn ac offer gael eu gosod allan i ddarparu ar gyfer pawb sydd â hawl i fod tu mewn i'r orsaf bleidleisio, gan ystyried gofynion mynediad yr holl bleidleiswyr, yn cynnwys y rhai mewn cadeiriau olwyn, a dangos sut y dylai'r gofod gael ei ddefnyddio i sicrhau'r llif mwyaf effeithlon o bleidleiswyr a gweinyddu effeithiol o'r broses bleidleisio.

Dyddiad yr adolygwyd:

Llythrennau cyntaf swyddog:

Rhan E – Sylwadau gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad

Sylw	**Enw / sefydliad**	**Ymateb gan y SC(G)**

Sylwadau ychwanegol gan y SC(G)